Ionawr 2024

**CWBL GYFRINACHOL A PHREIFAT**

Annwyl Gydweithiwr,

**Practis Meddygon Teulu a Reolir gan y Bwrdd Iechyd — Meddygfa Bryntirion, Gogledd Caerffili**

Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol bod Meddygfa Bryntirion wedi cael ei reoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o'r 1af o Ragfyr 2017, a fod Canolfan Feddygol Markham wedi dod yn feddygfa gangen iddi, yn dilyn ymadawiad y cyn Bartneriaid Meddygon Teulu.

Yn dilyn ystyriaeth ddiweddar gan Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, cytunwyd y dylid hysbysebu Meddygfa Bryntirion (gan gynnwys Canolfan Feddygol Markham) gyda'r bwriad o ddychwelyd y practis i statws Contractwr Annibynnol. Yn unol â'r Broses Practis Gwag, gosodwyd hysbyseb yn y British Medical Journal (BMJ) ac fe rannwyd yr hysbyseb yn lleol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau oedd 24ain o Dachwedd 2023. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd un achos busnes. Fe'i rhoddwyd ar y rhestr fer ac fe'u gwahoddwyd i gyfweliad ar 11eg o Ragfyr 2023.

Yn seiliedig ar ganlyniad y cyfweliad, penderfynodd y Panel fod Partneriaeth Meddygon Teulu Dr J Allinson a Dr J Ahmed wedi rhoi sicrwydd bod ganddynt ddigon o gapasiti i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion Meddygfa Bryntirion.

Felly, rwy'n falch o gadarnhau, yn dilyn ymgyrch recriwtio gadarn a chadarnhad gan Bwyllgor Gweithredol Aneurin Bevan, fod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r contract ar gyfer rheoli a darparu Gwasanaethau Meddygol

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200

Cyffredinol i gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda Meddygfa Bryntirion ar hyn o bryd, i Dr Allinson a Dr Ahmed. Bydd y contract yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2024.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol o ran sefydlogrwydd hirdymor y ddarpariaeth o Wasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ardal Gogledd Caerffili.

Bydd meddygon a staff Meddygfa Bryntirion yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i'r cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r practis rhwng nawr a'r 31ain o Fawrth 2024 a bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r Contractwr Gwasanaethau Meddygon Teulu newydd er mwyn sicrhau fod y newid yn un esmwyth i gleifion a staff.

Gallaf eich sicrhau nad oes angen i gleifion wneud unrhyw beth gan y byddant yn cael eu cofrestru'n awtomatig gyda'r Contractwr Meddygon Teulu newydd ar y 1af o Ebrill 2024, a byddant yn parhau i gael mynediad at Wasanaethau Meddygol Cyffredinol o Feddygfa Bryntirion a changen Canolfan Feddygol Markham.

Byddaf yn ysgrifennu at y cleifion maes o law, i roi gwybod iddynt am y canlyniad ac i gadarnhau sut y bydd modd iddynt gael mynediad at wasanaethau o'r 1af o Ebrill 2024 ymlaen. Byddem yn hynod ddiolchgar pe byddai modd i chi gadw **manylion y llythyr hwn yn gyfrinachol nes y byddaf wedi ysgrifennu at y cleifion**.

Rydym yn sylweddoli y gallai'r newidiadau yma beri gofid i rai cleifion, gellir cyfeirio unrhyw bryderon neu ymholiadau i'r Tîm Gofal Sylfaenol ar (01495) 241293 neu 241258.

Rwy'n gobeithio eich bod yn deall mai ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gan bob claf fynediad at wasanaethau meddygol cyffredinol o ansawdd da, a thrwy wneud y newidiadau hyn, gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bob claf.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm Gofal Sylfaenol ar (01495) 241293 neu 241258.

Yn gywir

Lloyd Hambridge
**Cyfarwyddwr Adrannol**
**Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol**